OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2016 Rhif 463 (Cy. 148)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Cyffordd 1 (Cyfnewidfa Rhiwabon) i’r Ffin rhwng Cymru a Lloegr, Bwrdeistref Sirol Wrecsam) (Gwaharddiadau a Chyfyngiad Traffig Dros Dro) 2016

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *24 Mawrth 2016* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ebrill 2016* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Abertawe – Manceinion (yr A483) (“y gefnffordd”), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig neu ei chyfyngu ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)** yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2016 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Cyffordd 1 (Cyfnewidfa Rhiwabon) i’r Ffin rhwng Cymru a Lloegr, Bwrdeistref Sirol Wrecsam) (Gwaharddiadau a Chyfyngiad Traffig Dros Dro) 2016.

**2.** (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cerbyd esempt” *(“exempted vehicle”)* yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn; a

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn

ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig-

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy’n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at y diben o hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period”*) yw'r cyfnod sy'n dechrau am 19:00 o'r gloch ar 1 Ebrill 2016 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces”*) yw’r unedau hynny o’r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw;

ystyr “y darnau o'r gefnffordd” (“*the lengths of the trunk road”*) yw’r brif gerbytffordd a’r ffyrdd ymuno ac ymadael ar hyd y darnau o’r gefnffordd ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam rhwng Cyffordd 1 (Cyfnewidfa Rhiwabon) a’r ffin rhwng Cymru a Lloegr a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu’r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiadau a Chyfyngiad**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen ar yr adegau hynny pan fo’r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 4 yn weithredol.

**Atal Dros Dro**

**6.** Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy’n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau perthnasol o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen wedi eu hatal dros

**Cymhwyso**

**7.** (1) Ni fydd darpariaethau erthygl 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau a'r cyfyngiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**8.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 24 Mawrth 2016

*Richard Morgan*
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## YR ATODLEN

1. Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 800 metr i'r de o ganolbwynt Cyffordd 1 (Cyfnewidfa Rhiwabon) i bwynt 800 metr i'r gogledd o ganolbwynt Cyffordd 2 (Cyfnewidfa Johnstown).

2. Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 800 metr i'r de o ganolbwynt Cyffordd 2 (Cyfnewidfa Johnstown) i bwynt 800 metr i'r gogledd o ganolbwynt Cyffordd 3 (Cyfnewidfa Croesfoel).

3. Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 800 metr i'r de o ganolbwynt Cyffordd 3 (Cyfnewidfa Croesfoel) i bwynt 800 metr i'r gogledd o ganolbwynt Cyffordd 4 (Cyfnewidfa Ffordd Rhuthun).

4. Y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o bwynt 800 metr i’r de o ganolbwynt Cyffordd 4 (Cyfnewidfa Ffordd Rhuthun) i bwynt 800 metr i’r gogledd o ganolbwynt Cyffordd 5 (Cyfnewidfa Ffordd yr Wyddgrug).

5. Y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o bwynt 800 metr i’r de o ganolbwynt Cyffordd 5 (Cyfnewidfa Ffordd yr Wyddgrug) i bwynt 800 metr i’r gogledd o ganolbwynt Cyffordd 6 (Cyfnewidfa Gresffordd).

6. Y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o bwynt 800 metr i’r de o ganolbwynt Cyffordd 6 (Cyfnewidfa Gresffordd) i bwynt 800 metr i’r gogledd o ganolbwynt Cyffordd 7 (Cyfnewidfa’r Orsedd).

7. Y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o bwynt 800 metr i’r de o ganolbwynt Cyffordd 7 (Cyfnewidfa’r Orsedd) tua’r gogledd i’r ffin rhwng Cymru a Lloegr.